City and County of Swansea

# Minutes of the Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 11 Mawrth 2020 at 4.00 pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd R V Smith (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| O G James | L R Jones | M A Langstone |
| M B Lewis | D W W Thomas | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Nick Williams | Cyfarwyddwr Addysg |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd/wyr: M Durke a B Hopkins

---

**35 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**36 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2020 fel cofnod cywir.

**37 Adolygiad o Dystiolaeth/Wybodaeth a gyflwynwyd hyd yn hyn. (Llafar)**

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod yn adlewyrchu ac yn adolygu'r holl wybodaeth a dderbyniwyd gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig sy'n ymwneud â'r cwricwlwm newydd.

Amlinellodd y byddai’r holl wybodaeth a thystiolaeth a gyflwynwyd gan gynrychiolwyr yr ysgol, swyddogion yr adran addysg ac asiantaethau allanol/partner yn cael eu hystyried wrth ddrafftio adroddiad i'r Cabinet.

Roedd yr amrywiaeth o weithgareddau sy'n cael eu cynnal mewn ysgolion ar hyn o bryd wedi greu argraff fawr ar y Pwyllgor. Mae hyn yn cynnwys:

Gwaith prosiect

- Llythrennedd a Rhifedd
- Trefniadau pontio

- Canolbwyntio ar grwpiau â chyrhaeddiad isel
- Canolbwyntio ar grwpiau â chyrhaeddiad uchel e.e. MAT
- Gweithio gyda grwpiau clwstwr
- Creu swyddi /strwythurau arweinyddiaeth newydd
- Gweithio i wella sgiliau staff e.e. hyfforddiant ysgol gyfan, presenoldeb yn nigwyddiadau allanol
- Rhoi strwythurau'r cwricwlwm newydd ar waith
- Gweithio i gyfleu barn dysgwyr
- Cynnwys athrawon fel rhan o dimau sy'n cyd-adeiladu cwricwlwm newydd eu hysgol;
- Ehangu cyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol.

<u>Cefnogaeth</u>

- Digwyddiadau/cynadleddau
- Cysylltiadau â SAU
- Rhwydwaith Ysgolion Ymholi Arweiniol
- Ysgolion Rhwydwaith Cenedlaethol
- Cylchlythyrau electronig ERW
- Sesiynau ANG
- Partneriaethau ysgolion
- Gweithio ar lefel clwstwr

Dylai nod y polisi newydd fod i roi'r rhyddid i ysgolion Abertawe ddatblygu cynnwys y cwricwlwm ac addysgeg sydd wedi'u theilwra i anghenion dysgwyr unigol.

Ni waeth beth yw'r strwythurau cenedlaethol a rhanbarthol, beth ddylai rôl yr Awdurdod Lleol fod? A ellir ei ddiffinio yn nhermau'r canlynol:

- Cefnogaeth
- Dylanwad
- Monitro
- Arweiniad

Dylai hyn gefnogi ysgolion Abertawe i baratoi, addasu a chynnal y cwricwlwm newydd.

Mae angen darparu'r meysydd gwaith canlynol yng nghyd-destun y blaenoriaethau sydd wedi'u nodi gan y PDP:

- Sut mae Abertawe'n bodloni anghenion ei dysgwyr mwyaf diamddiffyn;
- Sut mae Abertawe'n sicrhau bod gan ei phobl ifanc y sgiliau y mae eu hangen arnynt i gyflawni eu potensial, gan roi sylw dyledus i anghenion sgiliau economi rhanbarth Abertawe,
- Sut mae Abertawe'n sicrhau bod gan weithlu'r ysgol y sgiliau y mae eu hangen arnynt i symud Cwricwlwm i Gymru yn ei flaen, gan gofio mai proses barhaus yw hi, nid digwyddiad;
- Sut mae Abertawe'n sicrhau bod ganddi'r gallu o ran arweinyddiaeth ysgolion ofynnol i symud Cwricwlwm i Gymru yn ei flaen, gan gofio mai proses barhaus yw hi, nid digwyddiad;

- Y blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg a nodwyd ar lefel Cymru gyfan gan ganlyniadau'r PISA (e.e. ynghylch perfformiad bechgyn wrth ddarllen etc.).

Ymhlith y meysydd posib i'w harchwilio ymhellach mae dull o rannu arfer drwy offeryn ar-lein gyda chymorth a monitro i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio.

<u>Cymuned Ddysgu Broffesiynol Abertawe</u>
- Sut ydym yn sicrhau bod arweinwyr ysgol yn cymryd rhan mewn trafodaeth barhaus am gwricwlwm ac addysgeg eu hysgol gyda'r ALl trwy waith Ymgynghorwyr Herio;
- Sut ydym yn sicrhau ymagweddau staff cyfan i sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu cyflawni'r hyn a ddisgwylir ganddynt trwy gyfuniad o DPP, mynediad at gefnogaeth, a phrosesau i nodi anghenion cefnogaeth a mynd i'r afael â nhw.

A fyddai hyn yn bosib trwy Gymuned Ddysgu Broffesiynol Abertawe gyfan ac, os felly, sut caiff hynny ei strwythuro i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd uchod.

<u>Monitro Data</u>
- Monitro (a thrafodaeth) parhaus o data lefel disgyblion gan yr Awdurdod Lleol i fonitro safonau llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a gwyddoniaeth.
- Craffu ar gynnydd grwpiau dysgwyr allweddol gan gynnwys cPYDd (e.e. canolbwyntio ar ddisgyblion a oedd yn cPYDd ar 90% neu fwy o achlysuron lle gymerwyd CYBLD), bechgyn/merched, gyda dadansoddiad is-grŵp
- Defnyddio'r data hwnnw i fonitro graddau'r heriau, pa feysydd o arfer da sy'n bodoli, ble mae'r gwendidau?

<u>Dosbarthu gwybodaeth</u>
- Dosbarthu tystiolaeth o arferion da
- Gweithio'n agos gydag ysgolion i fynd i'r afael â'r ffordd y maent yn gweithio a'r cwricwlwm maent yn ei ddarparu i fynd i'r afael â'r materion hyn

<u>Monitro proses</u>
Adolygiad parhaus o drefniadau asesu'r ysgol, gan gynnwys dibynadwyedd asesiad athrawon, gan gynnwys gwaith clystyrau ysgolion ynghylch cymedroli a safoni. Defnyddio triawdau ysgolion, adolygiadau cymheiriaid i helpu ysgolion i ddatblygu'r cwricwlwm a'r addysgeg y mae eu hangen arnynt i ddarparu'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus ar y cyd â bodloni'r blaenoriaethau a nodwyd gan y PDP.

<u>Cydlynu</u>
Cynnal cyfrwng rhwng y Cynghorwyr Ysgolion Cynradd a'r gwaith parhaus o ddatblygu cwricwlwm mewn ysgolion i sicrhau bod yr holl ysgolion yn ymwybodol o anghenion sgiliau a blaenoriaethau rhanbarthol.
Ar yr un pryd, sicrhau bod elfen alwedigaethol, gan gynnwys parodrwydd ar gyfer byd gwaith yn rhan o'r cwricwlwm ar gyfer pob plentyn hyd at 14 a thu hwnt i hynny.

<u>Gallu</u>
Tybir y gellir cyflawni hyn gyda'r staff cymorth ysgol presennol a fydd yn gallu defnyddio arbenigedd ymarferwyr sy'n gwasanaethau mewn ysgolion pan fo angen.

Fodd bynnag, bydd angen adolygu'r gallu i wneud hynny. Bydd angen adolygu pa adnoddau fydd eu hangen.

## 38 Cynllun Gwaith 2019 - 2020.

Trafododd y pwyllgor bynciau posib i'w trafod yn y flwyddyn ddinesig nesaf.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai cyfarfod mis Ebrill yn cael ei ganslo ac y byddai'n cysylltu â Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd i drefnu cyfarfod arbennig ar ddechrau mis Mai i ystyried yr adroddiad drafft i'r Cabinet ar y cwricwlwm newydd.

**Penderfynwyd** ychwanegu'r pynciau canlynol at y cynllun gwaith ar gyfer 2020-2021:

- Trefniadau clwstwr;
- Athrawon cyflenwi;
- Anghenion Dysgu Ychwanegol.

The meeting ended at 4.48 pm

**Chair**